Y WEITHDREFN RHEOLI DŴR

Cyflwyniad a Nod

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei staff a'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan ei weithgareddau. Mae'r weithdrefn hon yn ategu'r Polisi Rheoli Dŵr ac fe'i datblygwyd yn unol â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc., 1974 a Chod Ymarfer Cymeradwy L8; (*Y rhai sy'n gyfrifol am reoli eiddo a'r rhai â chyfrifoldebau iechyd a diogelwch eraill, i'w helpu i gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol mewn cysylltiad â legionella. Mae'r rhain yn cynnwys nodi ac asesu ffynonellau risg, paratoi cynllun i atal neu reoli risg, gweithredu, rheoli a monitro rhagofalon, cadw cofnodion o ragofalon a phenodi rheolwr i fod yn gyfrifol am eraill*). Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc., 1974 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ac mae'r weithdrefn drosfwaol hon yn nodi ymrwymiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i iechyd a diogelwch, gan amlinellu'r trefniadau ar gyfer rheoli dŵr yn y sefydliad gan gynnwys cyfrifoldebau cyffredinol a phenodol pob aelod o staff.

Nodau'r Weithdrefn yw:

- amlinellu gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc., 1974;
- amlinellu'r broses o reoli'r trefniadau Iechyd a Diogelwch yn Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- lleihau'r risgiau Iechyd a Diogelwch yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i bob aelod o staff ac eraill;
- cydnabod y rhwymedigaethau a osodwyd o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc., 1974, WHTM 04-01 ac ACOP L8 (rheoli bacteria legionella mewn systemau dŵr)

Polisïau, Gweithdrefnau a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Ategol

Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau corfforaethol ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Y Weithdrefn Rheoli Dŵr
- Polisi Rheoli Heintiau
- Y Polisi Gweithio'n Ddiogel
- Y Weithdrefn Rheoli Contractwyr

Cwmpas

Mae'r polisi hwn ac unrhyw drefniadau a wneir mewn cysylltiad ag ef yn berthnasol i:

- Bob adeilad y mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen arno neu'n ei feddiannu (o dan brydles cynnal a chadw lawn)
- Pob unigolyn y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei gyflogi neu'n ymgysylltu ag ef, gan gynnwys gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr asiantaeth, y rhai sy'n ddeiliaid contractau anrhydeddus a'r rhai sy'n ymgysylltu â Chydweithrediad Iechyd GIG Cymru;
- Pob defnyddiwr gwasanaeth, ymwelydd a gwirfoddolwr.

Pan fydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n darparu gwasanaethau gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys byrddau iechyd, bydd polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad cyflogi, gan gynnwys deiliaid contract anrhydeddus, yn berthnasol. Pan fo hynny'n briodol, cytunir ar drefniadau gweithio ar y cyd ac ar gyfer eiddo a rennir bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth/Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd	Cwblhawyd Asesiad o'r effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg ac Iechyd ac mae ar gael ar y tudalennau gwe polisi.
Cymeradwywyd gan	Y Grŵp Iechyd a Diogelwch a'r Tîm Busnes Gweithredol
Dyddiad Cymeradwyo	05 Rhagfyr 2022
Dyddiad Adolygu	05 Rhagfyr 2025
Dyddiad Cyhoeddi:	20 Rhagfyr 2022
Cyfarwyddwr Gweithredol/ Cyfarwyddwr Cyfrifol	Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau
Awdur	Chris Orr, Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch

<u>Ymwadiad</u>
Os bydd dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, dylech sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu â'r adran Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau				
Rhif y Fersiwn	**Dyddiad Adolygu**	**Dyddiad Cymeradwyo**	**Dyddiad cyhoeddi**	**Crynodeb o'r Diwygiadau**

1	30-Medi-17	19-Rhag-17	5-Chwef-2018	Fersiwn 1 y weithdrefn
2	30-Medi-22	05-Rhag-22	20-Rhag-22	Tudalen 5- Dileu'r geiriau 'adran iechyd' a diweddaru'r diffiniad o 'bibellau segur'. Tudalen 6 – Mae nodau ac amcanion y weithdrefn yn adlewyrchu'r ffaith bod y polisi hwn yn berthnasol i bob eiddo ICC, sy'n cael ei brydlesu a'i reoli. Tudalen 7- Amcanion wedi'u diweddaru a chyfeiriad at yr hyn y bydd y sefydliad yn ei wneud i gyflawni'r nodau a'r amcanion. Mae'r tablau o dan yr adran cyfrifoldebau wedi'u symud i'w cynnwys yn yr Atodiadau. Tudalen 7- Yr adran asesu risgiau wedi'i diweddaru am nad yw'r Grŵp Adeiladau a'r Amgylchedd yn bodoli mwyach a newidiwyd trefniadau adrodd y Grŵp Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Tudalen 7- Cynllun rheoli ysgrifenedig wedi'i gynnwys. Tudalen 9- Yr adran hyfforddi wedi'i diweddaru i adlewyrchu gofynion unigolion cyfrifol Tudalen 10- Adran cadw cofnodion wedi'i chynnwys Tudalen 10- Yr adran ddeddfwriaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu newidiadau i'r rheoliadau a'r deddfwriaethau perthnasol diweddaraf

				Tudalen 12- Yr atodiadau wedi'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau i enwau grwpiau ar draws y sefydliad Tudalen 16- rôl Peiriannydd Awdurdodedig Cymeradwy, Unigolion Cymwys, Staff a defnyddwyr wedi'u cynnwys

Cynnwys

Cynnwys

1 Cyflwyniad 6
2 Diffiniadau 6
3 Nodau ac amcanion y gweithdrefnau 7
4. Asesu Risgiau 8
5. Cynllun Rheoli Ysgrifenedig 9
6. Mesurau Rheoli 9
7. Hyfforddiant 10
8. Cadw Cofnodion 11
9 Deddfwriaeth/Canllawiau: 11
Atodiad 1 13
Cyfrifoldebau dros Reoli Dŵr ..... **Error! Bookmark not defined.**

1 Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Yr Ymddiriedolaeth) yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd i bobl yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei dyletswyddau a'i chyfrifoldebau cyfreithiol i sicrhau, i'r graddau y bo'n ymarferol resymol, iechyd, diogelwch a lles ei chyflogeion a phobl eraill y gallai ei gweithgareddau effeithio arnynt a'i dyletswydd i'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Darperir y ddogfen hon i staff sy'n gysylltiedig â rheoli'r systemau dŵr a ddefnyddir gan staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amlygiad i Legionella.

Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 04-01) yn rhoi cyngor ac arweiniad cynhwysfawr i reolwyr, peirianwyr dylunio, rheolwyr ystadau, rheolwyr gweithrediadau, contractwyr a'r gadwyn gyflenwi gofal iechyd ar y gofynion cyfreithiol, ceisiadau dylunio, cynnal a chadw a gweithredu'r systemau cyflenwi, storio a dosbarthu'r cyflenwad dŵr poeth ac oer ym mhob eiddo gofal iechyd. Mae'r un mor berthnasol i safleoedd newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes.

2 Diffiniadau

Term	**Disgrifiad**
Unigolyn Cyfrifol	Rheolwr, cyfarwyddwr neu unigolyn â statws tebyg ac awdurdod, cymhwysedd a gwybodaeth ddigonol am y gosodiad i sicrhau y cynhelir pob gweithdrefn weithredol mewn ffordd amserol (yn unol â Chod Ymarfer Cymeradwy -ACOP L8 para 44)
Diffyg cydymffurfiaeth	Methiant i gydymffurfio â gofynion sefydledig (ACOP L8 a Memorandwm Technegol Iechyd - WHTM 04-01)
Legionella	Bacteriwm gram-negyddol sy'n achosi Clefyd y Llengfilwyr neu Legionelosis. Mae'n cael ei ddal drwy fewnanadlu aerosolau neu ddiferion bach o ddŵr sy'n hongian yn yr aer, sy'n cynnwys y bacteria.
Pibell bengaead	Hyd o bibell wedi'i chau ar un pen heb ddŵr yn mynd trwyddi.
Pibell segur	Darn o bibell yn y system ddŵr sy'n arwain i ffitiad y mae dŵr yn mynd trwyddo'n anaml pan, gan ddarparu'r potensial ar gyfer merddwr.

3 Nodau ac amcanion y weithdrefn

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob eiddo y mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen arno neu'n ei feddiannu ar hyn o bryd, ac mae'n berthnasol i bob aelod o staff yr Ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â gosod, rheoli, gweithredu, cynnal a chadw a glanhau systemau dŵr gan gynnwys staff asiantaeth, contractwyr, cynghorwyr dylunio a chyflogeion dros dro. Mae'r weithdrefn hon hefyd yn amlinellu sut y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei ddyletswyddau iechyd a diogelwch statudol i ddarparu amgylchedd diogel i ddefnyddwyr gwasanaethau, ymwelwyr, contractwyr, staff ac eraill y gallai gwaith y Sefydliad effeithio arnynt.

Mae'r weithdrefn hon yn ceisio nodi'r strwythurau rheoli ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw pob system lle y bydd y bacteria Legionella yn debygol o gytrefu, a lle y gall pobl gael eu hamlygu drwy anadlu aerosol neu drwy allsugno. Mae'r ddogfen hon yn un drosfwaol a bydd gan bob un o isadrannau Iechyd Cyhoeddus Cymru / cyrff sy'n cael eu cynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu staff Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gweithio mewn Byrddau Iechyd, gynllun ysgrifenedig a gweithdrefn leol ar gyfer rheoli Legionella a fydd yn berthnasol i'w gweithle hwy.

Nodau'r weithdrefn yw:

- amlinellu gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc., 1974;
- amlinellu'r dulliau o reoli'r trefniadau Iechyd a Diogelwch yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â Chod Ymarfer Cymeradwy L8 a WHTM 04-01;
- lleihau'r risgiau Iechyd a Diogelwch yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i bob aelod o staff ac eraill;

Amcanion y weithdrefn yw :

- Gweithredu trefniadau a phrotocolau rheoli priodol, er mwyn atal cyfleoedd i'r bacteria Legionella a halogion a gludir gan ddŵr luosogi yn y system ddŵr;
- sicrhau iechyd, diogelwch a lles pobl yn y gwaith;
- diogelu defnyddwyr gwasanaethau a phobl ar wahân i'r rhai sydd yn y gwaith rhag risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch sy'n deillio o weithgareddau y tu allan i'r gwaith;
- sefydlu diwylliant o gydweithredu, cyfathrebu, cymhwysedd a rheolaeth dros iechyd a diogelwch.

Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y weithdrefn hon, ac yn unol â gofynion WHTM 04-01 ac ACOP L8 bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- Penodi pobl i ysgwyddo cyfrifoldeb.
- Nodi ac asesu ffynonellau risg drwy Asesiadau Risg cynhwysfawr.
- Diddymu ffynonellau risg lle bynnag y bo'n bosibl a dim ond rheoli risgiau'n briodol os mai dyma fydd yr unig opsiwn.
- Ystyried atal heintio ar y cam dylunio system ddŵr.
- Adeiladu ac atgyweirio systemau dŵr gan ddefnyddio dim ond y deunyddiau hynny sydd wedi'u profi a'u cymeradwyo gan y Cynllun Cynghori ar Ymchwil Dŵr (WRAS).
- Paratoi Cynllun Rheoli Ysgrifenedig ar gyfer lleihau'r risgiau a gyflwynir gan Legionella a phathogenau eraill a gludir gan ddŵr.
- Gweithredu, rheoli a monitro'r Cynllun Rheoli Ysgrifenedig.
- Cynnal profion samplu dŵr ar gyfer Legionella pan ddynodir bod eu hangen drwy fesurau rheoli.
- Hyfforddi staff i ddeall y risgiau a gyflwynir gan Legionella, yn ogystal â sut i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau, fel y'u nodwyd yn y Cynllun Rheoli Ysgrifenedig.
- Dim ond defnyddio darparwyr gwasanaethau sy'n gallu dangos gallu a chymhwysedd, er enghraifft aelodaeth o'r Gymdeithas Rheoli Legionella (LCA).
- Cadw cofnodion yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) o unrhyw hyfforddiant, polisïau, cynlluniau rheoli a gweithdrefnau cysylltiedig, asesu, monitro a phrofi risg.
- Adolygu perfformiad yn rheolaidd a darparu gwybodaeth i hybu diwydrwydd dyladwy o ran diogelwch ansawdd dŵr.

4. Asesu Risgiau

Mae'n hollbwysig bod yr Ymddiriedolaeth yn ystyried y risg o Legionella ym mhob rhan o systemau dŵr yr Ymddiriedolaeth a'u hasesu'n addas er mwyn i reolaethau effeithiol gael eu datblygu a'u rhoi ar waith.

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cadarnhau'r broses asesu risgiau drwy'r Dirprwy Unigolyn Cyfrifol a'r Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau. Bydd y broses hon yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â Legionella ar gyfer holl ardaloedd yr Ymddiriedolaeth lle mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau, staff ac ymwelwyr gysylltiad uniongyrchol â systemau ac allfeydd dŵr.

Bydd sefydliadau Rheoli Dŵr a/neu gynghorwyr allanol yn cynnal asesiadau o'r risg o Legionella dan gyfarwyddyd yr Unigolyn Cyfrifol, y Dirprwy Unigolyn Cyfrifol a/neu'r Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau.

Bydd asesiadau risg yn talu sylw penodol at y risgiau amgylcheddol (y system beirianneg) a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r deiliaid, yn unol â'r fethodoleg a nodwyd yn algorithm risg datblygedig yr Ymddiriedolaeth: sy'n cynnwys:

- graddau imiwnedd gwan unigolion (staff a defnyddwyr gwasanaethau) sy'n defnyddio'r ardal (lle y bo'n briodol)
- categoreiddio'r ardal fel un glinigol neu nad yw'n glinigol neu i'w defnyddio gan staff yn unig
- cylchrediad dŵr/merddwr/pibellau segur/defnydd/trosiant
- tymheredd dŵr
- cynhyrchu aerosol
- allfeydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml
- y nifer o samplau legionella positif a ganfyddir
- y mathau o allfeydd trin dŵr

Adolygir pob asesiad risg yn unol â'r canllawiau yn Safonau Prydeinig 8580-1:2019 - Asesiad Risg ar gyfer Rheoli Legionella, a byddant yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Tîm Ystadau ac Iechyd a Diogelwch (Bydd y swyddogaeth hon yn monitro cydymffurfiaeth adeiladau'r Ymddiriedolaeth ac yn adrodd i'r Grŵp Iechyd a Diogelwch a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella).

5. Cynllun Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r Cynllun Rheoli Ysgrifenedig yn ddogfen rheoli risgiau gynhwysfawr sy'n nodi mesurau a gymerwyd i reoli systemau dŵr a lleihau'r risg o amlygiad i'r bacteria legionella. Fe'i defnyddir hefyd fel cofnod o'r holl gamau gweithredu a gymerwyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod risg ragweladwy resymol o systemau dŵr yr Ymddiriedolaeth. Felly, bydd Cynllun Rheoli Ysgrifenedig ar gyfer rheoli'r risg yn cael ei ddylunio, ei weithredu a'i reoli ar gyfer pob adeilad lle mae asesiad risg wedi nodi posibilrwydd rhagweladwy o amlygiad i legionella.

Ar gyfer eiddo lle y caiff y system ddŵr ei rheoli gan yr Ymddiriedolaeth, yr Unigolyn Cyfrifol fydd yn llunio'r cynllun hwn. Pan ddarperir gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth o eiddo nad yw'r Ymddiriedolaeth yn uniongyrchol berchen arnynt neu'n eu prydlesu, rhaid i'r Unigolyn Awdurdodedig sydd wedi'i aseinio i'r eiddo hwnnw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y ddogfen hon fel isafswm. Rhaid i landlord yr eiddo ddarparu cadarnhad o gydymffurfiaeth, gan gynnwys Cynllun Rheoli Ysgrifenedig ac Asesiad Risg Legionella.

6. Mesurau Rheoli

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd angen ystod o fesurau rheoli i liniaru'r risgiau o Legionella. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ailosod y pibellau a'r system ddosbarthu gan ynysu/datgomisiynu'r cyfarpar/eitemau nad ydynt yn cydymffurfio
- gwella'r rheolaeth dros dymheredd y dŵr
- symud/newid y cyfarpar/eitemau nad ydynt yn cydymffurfio
- gor-glorineiddio
- pasteureiddio
- dosio Clorin Deuocsid
- ïoneiddiad Copr Arian
- gosod hidlwyr
- adleoli defnyddwyr gwasanaeth/staff agored i niwed/a allai gael eu heintio i ardaloedd â llai o risg (pan fo'n berthnasol)
- glanhau a fflysio allfeydd dŵr nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd
- archwilio a glanhau tanciau a chynwysyddion storio
- archwilio a glanhau caloriffyddion

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau bod systemau dŵr diogel yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw, ynghyd â'r tîm Ystadau ac Iechyd a Diogelwch a'r Tîm Rheoli ac Atal Heintiau. Cynhelir y gwaith o weithredu a chynnal a chadw'r systemau dŵr yn unol â gweithdrefnau'r ymddiriedolaeth, a bydd yn cynnwys rheoli digwyddiadau o golli cyflenwad dŵr poeth a/neu oer. Canolbwyntir yn benodol ar drefniadau glanhau a fflysio priodol, yn arbennig mewn ardaloedd lle nad yw cyflenwadau dŵr yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Bydd y Rheolwr a nodwyd/a aseiniwyd yn lleol ar gyfer y gwahanol safleoedd yn sicrhau bod yr holl staff a nodir sydd â chyfrifoldeb am fflysio yn fflysio'r holl fannau a feddiannir yn unol â'r Cynllun Rheoli Ysgrifenedig sy'n cael ei oruchwylio gan y Tîm Ystadau ac Iechyd a Diogelwch.

6. Adnoddau

Darperir adnoddau drwy Wasanaethau Ystadau Arbenigol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP/SES) neu drwy gontract uniongyrchol gyda chyflenwyr rheoli dŵr. Bydd Byrddau Iechyd/Landlordiaid, pan fydd ganddynt gyfrifoldeb dros gynnal a chadw, yn darparu'r adnoddau.

7. Hyfforddiant

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol, y Dirprwy Reolwr Cyfrifol yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n rheoli Legionella neu sy'n gysylltiedig â hyn yn ymgymryd â hyfforddiant manwl a phriodol a drefnir yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes rheoli systemau dŵr.

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol, yr Unigolyn Awdurdodedig a'u Dirprwyon yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol gofynnol yn y meysydd canlynol sy'n berthnasol i ACOP L8, WHTM 04-01 a HSG 274 rhannau 2 a 3:

- Ymwybyddiaeth o Legionella;
- Legionella: Rôl yr Unigolyn Cyfrifol

Dylid cadw cofnodion unigol ar gyfer pob aelod o staff sydd wedi'u hyfforddi. Dylai'r Unigolyn Cyfrifol lofnodi'r cofnodion hyfforddiant. Dylid asesu'r lefel o wybodaeth yn rheolaidd a dylai'r asesiadau fod wedi'i rhaglennu a chael eu cynnal yn barhaus.

8. Cadw Cofnodion

Fel y nodir yn ACOP L8 a WHTM 04-01, bydd cofnodion o'r holl weithgarwch perthnasol, o apwyntiadau ac asesiadau risg, i gofnodion fflysio a chamau gweithredu cywirol yn cael eu cynnal gan y rhai a benodwyd yn unol â'r weithdrefn hon.

Bydd y cofnodion yn dangos dyddiad ac amser unrhyw dasg neu ddyletswydd yr ymgymerir â hwy yn ogystal ag enw a/neu lofnod yr unigolyn/unigolion sy'n cynnal y dasg, fel y bo'n berthnasol. Mae'n rhaid i'r cofnodion fod yn glir a chryno, yn gynhwysfawr ac yn archwiliadwy ac mae'n rhaid darparu copïau wrth gefn ohonynt i sicrhau parhad rhag ofn iddynt gael eu colli am unrhyw reswm.

Bydd gan bob adeilad Lyfr Cofnodion sy'n cynnwys y cofnodion canlynol sy'n gysylltiedig ag ef:

- Apwyntiadau wedi'u dogfennu ar gyfer rheoli diogelwch dŵr
- Asesiad risg Legionella
- Cynllun Rheoli Ysgrifenedig
- Darlun sgematig o'r system ddŵr neu ddarluniau cyfredol o'r cynllun
- Canlyniadau gwiriadau o fesurau rheoli (tymheredd dŵr, glanhau a digennu cawod)
- Cofnodion fflysio
- Adroddiadau am ddiffyg cydymffurfiaeth a chofnodion o gamau gweithredu cywirol
- Cofnodion hyfforddiant staff

9 Deddfwriaeth/Canllawiau:

Diben y weithdrefn hon yw sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gosod, cynnal a chadw a gweithredu systemau dŵr mewn ffordd ddiogel a chydymffurfio â'r deddfwriaethau, codau ymarfer a chanllawiau canlynol:

- Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc, Act 1974;
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002;
- ACOP yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch "Rheoli Bacteria Legionella mewn Systemau Dŵr" L8 (4ydd Argraffiad 2013);

- WHTM 04-01 Dŵr diogel mewn eiddo gofal iechyd (Rhannau A a B);
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999;
- Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Clefydau Heintus) 1988;
- Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999;
- HSG274 Rhan 2 Cyhoeddwyd 2014: Rheoli Bacteria Legionella mewn Systemau Dŵr Poeth ac Oer;
- BS 8580-1:2019 – Ansawdd Dŵr. Asesiadau risg ar gyfer rheoli Legionella – Cod Ymarfer;
- BS 8554:2015 Cod ymarfer ar gyfer samplo a monitro gwasanaethau dŵr poeth ac oer mewn adeiladau;
- BS 7592:2022 Samplo ar gyfer bacteria Legionella mewn systemau dŵr – Cod Ymarfer;
- BS EN 806-5:2012 Manylebau ar gyfer gosodiadau y tu mewn i adeiladau sy'n cludo dŵr i'w yfed gan bobl. Gweithredu a chynnal a chadw

Cyfrifoldebau dros Reoli Dŵr

Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth

- Deiliad dyletswydd ar gyfer rheoli dŵr a legionella
- Cyfrifol am holl eiddo'r Ymddiriedolaeth a phob sefydliad arall sy'n meddiannu eiddo ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth, i gynnwys unrhyw gydgysylltu a chyswllt sy'n gysylltiedig â sefydlu systemau gwaith diogel ar gyfer rheoli dŵr a legionella.
- Dirprwyo tasgau Deiliaid Dyletswydd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
- Penodi, yn ysgrifenedig, Unigolyn Cyfrifol i fod yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd y risg o amlygiad i'r bacteria legionella.

Cyfarwyddwr Cyfrifol yr Ymddiriedolaeth (Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid)

- Aelod o'r Bwrdd sydd â chyfrifoldeb penodol dros reoli dŵr a legionella
- Cadeirio Grŵp Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth
- Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli dŵr a legionella a buddsoddiad cyfalaf a seilwaith lle y nodir hynny
- Cysylltu'n rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol/Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod y system waith ddiogel bresennol yn cael ei hadolygu'n rheolaidd
- Ymgymryd â dyletswyddau dirprwyedig gan y Deiliad Dyletswydd

Unigolyn Cyfrifol / Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth

- Y pwynt cyswllt i'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau, er enghraifft gwasanaethau trin neu gynnal a chadw dŵr, i ganfod unrhyw ddiffygion yn y system ddŵr neu fesurau a allai gyflwyno risg sylweddol o amlygiad i'r bacteria legionella.
- Y pwynt cyswllt i'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau, er enghraifft gwasanaethau trin neu gynnal a chadw dŵr ar gyfer unrhyw gyfyngiadau yn arbenigedd, cynnyrch neu wasanaethau'r cyflenwyr er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â'r diffygion neu gyfyngiadau hyn.
- Adolygu'r Cynllun Cynnal a Chadw Afreolaidd, rhaglen, gweithdrefn a chofnodion gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu, mewn cysylltiad â'r Dirprwy Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau, Rheoli Risg, y Dirprwy Unigolyn Cyfrifol ac Unigolion Awdurdodedig.
- Adolygu cymwysterau unigolion a chwmnïau sy'n gysylltiedig â rheoli, cynnal a chadw gweithrediad systemau dŵr yn yr Ymddiriedolaeth. Penodi'r Unigolion Awdurdodedig ar ôl adolygu eu

cymwyseddau a'u hyfforddi, a sicrhau bod ganddynt safon briodol o wybodaeth am beirianneg a'r safle.
- Sicrhau bod system waith ddiogel yr Ymddiriedolaeth yn cyfateb â'r cynllun rheoli ysgrifenedig ar gyfer Rheoli Legionella a Dŵr.
- Sicrhau bod llinellau adrodd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli Legionella a Dŵr i'r Grŵp Iechyd a Diogelwch, a'r Cyfarwyddwr Cyfrifol – y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid, yn gadarn a'u bod yn cael eu cynnal yn barhaus
- Rhoi sicrwydd i'r Prif Swyddog Gweithredol/Deiliad Dyletswydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid bod gweithdrefnau a systemau diogel ar gyfer rheoli Legionella a Dŵr ar waith. Mae dealltwriaeth glir o ddyletswyddau, rolau a dealltwriaeth o strwythurau a gweithdrefnau cyffredinol rheoli iechyd a diogelwch gan unigolion a chwmnïau sy'n gysylltiedig â rheoli, cynnal a chadw a gweithredu systemau dŵr
- Sicrhau bod y cynllun rheoli ysgrifenedig ar gyfer Rheoli Legionella a Dŵr yn gyfredol ac yn cael ei ddilyn
- Ffurfio rhan o'r tîm ymchwilio o dan gyfarwyddyd y Dirprwy Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau mewn unrhyw ddigwyddiad, mewn cydweithrediad â Legionella neu fethiannau ansawdd dŵr.
- Darparu cyngor proffesiynol a thechnegol i grwpiau monitro cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth; y Prif Swyddog Gweithredol/Deiliad Dyletswydd, Dirprwy Prif Swyddog Gweithredol, swyddogion a rheolwyr eraill yr Ymddiriedolaeth.
- Goruchwylio'r gwaith o redeg y gweithrediadau rheoli Legionella a Dŵr yn effeithiol yn yr Ymddiriedolaeth
- Cyfarwyddo pob proses berthnasol i asesu risgiau

Dirprwy Unigolyn Cyfrifol / Arbenigwr Dŵr yr Ymddiriedolaeth:

- Dirprwyo ar ran yr Unigolyn Cyfrifol (mewn cysylltiad â chyfrifoldebau o dan y Weithdrefn hon) pan fydd ar wyliau, yn absennol oherwydd salwch neu yn ystod mathau eraill o absenoldebau
- Gwneud ymholiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod sefydliadau fel cwmnïau neu gynghorwyr trin dŵr, ynghyd â phersonél o'r Ymddiriedolaeth, yn gymwys ac wedi'u hyfforddi'n addas a bod ganddynt yr offer angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau o fewn y cynllun ysgrifenedig mewn dull diogel a digonol.
- Trefnu hyfforddiant addas, neu hyfforddiant diweddaru i'r aelodau hynny o staff yr Ymddiriedolaeth sy'n gysylltiedig â rheoli, cynnal a chadw a gweithrediaeth systemau dŵr yn yr Ymddiriedolaeth
- Sicrhau bod gan y staff sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal a chadw systemau dŵr ddealltwriaeth glir o'u dyletswyddau a'r strwythur a'r gweithdrefnau rheoli iechyd a diogelwch cyffredinol yn yr Ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â rheoli dŵr
- Sicrhau bod cyflwr a pherfformiad y systemau dŵr yn cael eu monitro'n briodol

- Monitro'r dulliau o reoli cyflenwad, triniaeth, storio a dosbarthu dŵr yn yr Ymddiriedolaeth
- Ymchwilio i unrhyw fethiannau yng ngweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth mewn cysylltiad â chyflenwi, storio a dosbarthu dŵr yn ddiogel
- Cyd-drafod â staff Adrannol, Rheoli Heintiau, Rheoli Risgiau a Gwasanaethau Cymorth ynghylch cyflenwi, storio a dosbarthu dŵr
- Cyd-drafod ag awdurdodau amgylcheddol lleol ac awdurdodau eraill i sicrhau cyflenwad dŵr priodol a bod gweithdrefnau rhyddhau a chyfathrebu yn cael eu cynnal
- Sicrhau y cynhelir cofnodion digonol am 5 mlynedd
- Darparu cyngor ac arweiniad ar arferion a gweithdrefnau diogel
- Cydlynu hyfforddiant staff ar gyflenwi, trin, storio a dosbarthu dŵr yn ddiogel
- Cynnal cofnodion priodol a dulliau adrodd i gefnogi'r Unigolyn Cyfrifol yn eu dyletswyddau
- Cynnal darluniau o systemau dŵr
- Paratoi gweithdrefnau a datganiadau dull ar gyfer gweithrediadau ar y safle ar systemau dŵr i'w cymeradwyo gan yr Unigolyn Cyfrifol
- Adolygu asesiadau risg a nodi gwaith lliniaru sy'n ymarferol resymol pan fydd angen

Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (Arweinydd Gweithredol Atal a Rheoli Heintiau)

- Arweinydd enwebedig y Prif Weithredwr ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau
- Cadeirydd y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau
- Cyd-drafod yn rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol ynghylch materion gweithredol sy'n gysylltiedig â legionella a rheoli dŵr
- Yr Arweinydd Gweithredol sy'n gyfrifol am benderfynu pryd y dylid cynnull Grŵp Digwyddiad yn ymwneud â Legionella

Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau

Mae'r Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau yn darparu cyngor proffesiynol ar reoli dŵr ac yn hysbysu'r Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch a'r Arweinydd Gweithredol Atal a Rheoli Heintiau ynghylch materion gweithredol. Ymhlith ei gyfrifoldebau eraill mae:

- Cefnogi datblygiad asesiadau risg a'u hadolygu yn ôl yr angen
- Rheoli achosion
- Yn absenoldeb yr Arweinydd Gweithredol Atal a Rheoli Heintiau, byddai'r Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau yn dirprwyo
- Bydd yr Arweinydd Atal a Rheoli Heintio yn gweithio gyda'u cydweithwyr clinigol ac Ystadau i nodi allfeydd na wneir defnydd rheolaidd ohonynt er mwyn eu symud o bosibl

- Cyd-drafod yn rheolaidd â'r Unigolyn Cyfrifol a'r Dirprwy Unigolyn Cyfrifol/Arbenigwr Dŵr ar faterion gweithredol sy'n ymwneud â Legionella a rheoli dŵr
- Cynorthwyo i adolygu'r gweithdrefnau priodol
- Cynghori ar fesurau rheoli heintiau cysylltiedig
- Bydd yr Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau yn cyd-drafod â thimau clinigol mewn perthynas â gwneud diagnosis a rheoli defnyddwyr gwasanaethau yr amheuir bod ganddynt legionelosis
- Bydd yr Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau yn cydweithio â'r Unigolyn Cyfrifol a'r Dirprwy Unigolyn Cyfrifol i gynghori ar fesurau rheoli uniongyrchol pe bai unrhyw achosion

Unigolion Awdurdodedig yr Ymddiriedolaeth

- Darparu gweithwyr sydd wedi'u hyfforddi a'u goruchwylio'n ddigonol
- Adrodd i'r Unigolyn Cyfrifol ar faterion yn ymwneud â dŵr a Legionella
- Penodi Unigolion Cymwys – contractwr a staff llafur uniongyrchol
- Darparu asesiadau risg gweithrediad a thasgau cynnal a chadw a datganiadau dull
- Asesu rhestrau o gyfarpar a systemau i'w cynnal a'u cadw
- Trefnu archwiliadau a gwaith monitro cynnal a chadw ataliol sydd wedi'u trefnu
- Gweithredu gwaith sy'n deillio o gynlluniau gweithredu, paratoi asesiadau risg a datganiadau dull
- Monitro gwaith sydd wedi'i wneud
- Cynorthwyo'r Dirprwy Unigolyn Cyfrifol ar weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer cynnal a chadw. Ymhlith y gweithdrefnau mae:

    - Cynllun rheoli dŵr gweithredol ar gyfer pob safle/ardal gan adlewyrchu'r camau gweithredu o'r asesiad risg.
    - Cynllun ysgrifenedig ar gyfer rheoli unrhyw risgiau a nodwyd ar gyfer eiddo a systemau o dan eu rheolaeth
    - Cynllun wrth gefn ar gyfer argyfyngau sy'n arwain at golli cyflenwad dŵr neu fethiant y prif gyflenwadau
    - System weithredu i dynnu dŵr pan fydd merddwr neu ddefnydd isel neu drefnu i gael gwared ar y cyfarpar y gwneir defnydd isel ohono
    - Cadw cofnodion ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw, archwilio a phrofi

Rheolwr Cydymffurfiaeth – Rheoli Dŵr

- Cefnogi'r Unigolyn Cyfrifol, y Dirprwy Unigolyn Cyfrifol a'r Unigolyn Awdurdodedig i gyflawni eu dyletswyddau
- Trefnu'n benodol y staff llafur Uniongyrchol yn eu gwaith o fonitro a chynnal a chadw systemau dŵr

- Adrodd i'r Unigolyn Awdurdodedig ynghylch materion dŵr a Legionella
- Trefnu'n benodol i gontractwyr dŵr arbenigol a chontractwyr eraill i ymgymryd â gwaith angenrheidiol ar y safle mewn ffordd ddiogel a digonol
- Darparu gwybodaeth benodol am safle lleol a/neu ymchwiliadau o systemau dŵr

Peiriannydd Awdurdodi Allanol

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth benodi'n swyddogol ac yn ysgrifenedig Beiriannydd Awdurdodi i gefnogi'r Ymddiriedolaeth mewn rhinwedd broffesiynol a thechnegol ar bob agwedd ar reoli dŵr yn ddiogel.

Unigolyn Cymwys– Contractwyr

Yr unigolyn cymwys yw'r unigolyn neu sefydliad a ddynodwyd gan yr Unigolyn Cyfrifol/Unigolyn Awdurdodedig i fod yn gyfrifol am gyflenwi, gosod, dilysu a gwirio gwasanaethau dŵr poeth ac oer, ac am gynnal gwiriadau a phrofion gosod. Mewn cysylltiad â rheoli Legionella, mae'n hanfodol sicrhau bod gan unigolion a gyflogir gan gontractwyr gymwysterau addas (e.e. aelodaeth o'r Gymdeithas Rheoli Legionella neu mae ganddynt Statws Peirianneg Siartredig).

Staff Unigol

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddilyn cyfarwyddiadau a systemau gwaith lleol. Dylai staff hysbysu'r Adran Ystadau ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, mewn perthynas ag arogl neu dymheredd neu flas.

Defnyddwyr
Gofynnir i'r rhai sy'n defnyddio systemau dŵr yr Ymddiriedolaeth hysbysu unrhyw staff yr Ymddiriedolaeth yn yr ardal ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, mewn perthynas ag arogl neu dymheredd neu flas.